| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y PWYLLGOR:** | **4 CHWEFROR 2013** |
| **TEITL:** | **ADRODDIADAU BLYNYDDOL YR AELODAU** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO** |

1.1 Mae Mesur Llywodraeth Lleol Cymru (2011) yn nodi:-

*"(1) Rhaid i awdurdod lleol* ***wneud trefniadau—***

*(a) i bob person sy'n aelod o'r awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad*
*yn ymwneud â hi,*

*(b) i bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, ac*

*(c) i'r awdurdod gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.*

*(2) Caiff y trefniadau gynnwys amodau o ran cynnwys adroddiad y mae'n rhaid iddynt gael eu bodloni gan y person sydd yn ei lunio.*

*(3) Rhaid i awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'w drefniadau.*

*(4) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru."*

1.2 Bwriad yr Adroddiad Blynyddol gan yr Aelodau Etholedig yw gwella cyfathrebu rhwng Aelodau Etholedig a'r cyheodd. Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol yn nodi y bydd yr adroddiadau yn gyfrwng i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae eu aelodau lleol yn ei wneud a'r rôl bwysig sydd ganddynt. Mae hefyd wedi nodi y bydd yn rhydd i bob awdurdod lleol ddewis eu fformat eu hunain ar gyfer yr adroddiadau.

1.3 Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar y Mesur yn nodi y disgwylir i'r adroddiadau blynyddol gael eu cynhyrchu erbyn Mehefin 2013 ar weithgareddau sydd yn ymwneud a'r flwyddyn sirol flaenorol.

1.4 O gofio bod yr Etholiadau Lleol i'w cynnal yn Ynys Môn ym Mai 2013, cafwyd cadarnhad yn awr gan Lywodraeth Cymru bod angen i'r Cyngor hwn gynhyrchu'r adroddiadau blynyddol erbyn Mehefin 2014.

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor hwn nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn ac y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar ôl etholiadau Mai 2013 yn amlinellu templed posib i'r Aelodau baratoi adroddiad blynyddol.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro**
**25/01/13**